



Swyddfa Gartref

Ymgynghoriad ar bwerau'r heddlu i stopio a chwilio

Gorffennaf 2013

Sgôp yr ymgynghoriad

Pwnc yr ymgynghoriad:	Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar bwerau'r heddlu i stopio a chwilio, yn benodol dan y ddeddfwriaeth ganlynol: <ul style="list-style-type: none">• Adran 1 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE)• Adran 23 o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971• Adran 60 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994
Sgôp yr ymgynghoriad:	Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r bwerau hynny a ddefnyddir mewn perthynas â throedd ar y stryd, bwrgheriaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol, a throeddau yn erbyn y drefn gyhoeddus megis terfysgoedd a phrotestiadau treisgar. Cafodd bwerau stopio a chwilio dan ddeddfwriaeth gwrthderfysgaeth eu diwygio'n ddiweddar ac nid ydynt yn rhan o sgôp yr ymgynghoriad hwn.
Sgôp daearyddol:	Cymru a Lloegr.
Asesiad effaith:	Ddim ei angen.

Gwybodaeth sylfaenol

I:	Mae'r ymgynghoriad hwn ar agor i'r cyhoedd.
Cyfnod:	Mae'r ymgynghoriad yn para chwe wythnos o 2 Orffennaf 2013
Ymholiadau:	Stopandsearch@homeoffice.gsi.gov.uk
Sut i ymateb:	Ceir gwybodaeth ynglŷn â sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar www.gov.uk yn: www.gov.uk/government/organisations/home-office Gellir cynnig ymatebion ar-lein trwy www.gov.uk neu trwy'r post trwy yrru ymatebion i: Stop and search consultation Home Office Police Transparency Unit 6th Floor Fry Building 2 Marsham Street London, SW1P 4DF
Ffyrdd eraill i fod yn rhan o bethau:	Cysylltwch â'r Swyddfa Gartref (fel yr uchod) os hoffech gael gwybodaeth ar unrhyw ffurf wahanol, megis Braille, ysgrifen fwy neu sain.
Yn dilyn yr ymgynghoriad:	Bydd ymatebion yn cael eu dadansoddi a chyhoeddir dogfen 'ymatebion i'r ymgynghoriad'.

- 1.1 Mae gallu swyddogion yr heddlu i stopio pobl dan amheuaeth a chwilio yn bŵer pwysig yn eu brwydr ddyddiol yn erbyn troseddau, ac mae'n neilltuol o bwysig mewn perthynas â delio â gangiau, troseddau yn ymwneud â chyllyll a throseddau cyffuriau. Serch hynny, rhaid gwneud hyn yn deg ac mewn modd sydd yn rhoi hyder yn yr heddlu ymysg y gymuned yn hytrach na thanseilio eu gwaith. Ac, o ystyried graddfa'r gwaith o gofnodi sydd angen i'r heddlu ei wneud, rhaid sicrhau nad yw stopio a chwilio yn cael ei gamddefnyddio - neu mi fydd yn wastraff ar amser yr heddlu.
- 1.2 Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod yr heddlu'n parhau i hawlio'r pwerau sydd eu hangen arnynt i gyflawni ar gyfer y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys y pwerau i stopio a chwilio. Ond rydym eisiau sicrhau bod y pwerau hyn yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac mewn modd addas. Mae'r Swyddfa Gartref eisoes wedi gofyn i Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) i archwilio sut mae lluoedd yr heddlu'n defnyddio stopio a chwilio. Trwy'r ymgynghoriad hwn ein nod yw deall beth yw barn y cyhoedd am y defnydd o'r pwerau hyn ynghyd â barn y rhai sy'n plismona.
- 1.3 Mae'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar:
 - Effeithiolrwydd
 - Tegwch
 - Cael cydbwysedd rhwng diogelwch y cyhoedd a sicrhau rhyddid unigolion
 - Biwrocratiaeth mewn plismona

Pwerau stopio a chwilio

- 1.4 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r pwerau stopio a chwilio canlynol:
 - Adran 1 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE)
 - Adran 23 o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971
 - Adran 60 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994

Adran 1 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE):

- Gall swyddog yr heddlu **stopio unigolion a chwilio unigolyn neu gerbyd am eitemau anghyfreithlon neu sydd wedi eu dwyn**, gan gynnwys arfau peryglus.
- Gall swyddog **gymryd eitem o'r fath a ddarganfyddir**.
- Rhaid i swyddog **gael rheswm digonol** i fod ag amheuaeth y bydd yn canfod eitemau anghyfreithlon neu sydd wedi eu dwyn, cyn mynd ati i stopio a chwilio;
- **Nid oes angen cael awdurdod gan uwch swyddog.**

Mae Adran 23 o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 yn:

- Rhoi caniatâd i swyddog **stopio a chwilio pobl, cerbydau a llongau ar gyfer eitemau anghyfreithlon a chyffuriau a reolir.**
- Weithredol pan fydd gan y swyddog **reswm digonol** i fod ag amheuaeth fod **unigolyn yn cario cyffur a reolir.**

Mae Adran 60 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994:

- Yn weithredol pan dybia uwch swyddog **y gall digwyddiad o drais difrifol ddigwydd**, neu fod **teclyn neu arfau peryglus yn cael eu cario.**
- Yn caniatáu i uwch swyddog **awdurdodi pwerau stopio a chwilio ychwanegol mewn ardal ddynodedig am amser cyfyngedig** hyd at 48 awr.
- Pan roddir awdurdod, gall swyddog o'r heddlu **stopio a chwilio unigolyn neu gerbyd am declyn neu arfau peryglus a chymryd unrhyw eitemau o'r fath a ganfyddir.**
- Pan roddir awdurdod, gall swyddog wneud unrhyw chwiliad y tybia sy'n briodol, **os yw'n amau ai peidio fod yr unigolyn neu'r cerbyd yn cario arfau neu eitemau o'r fath.**

Cwestiynau ymgynghori

Effeithiolrwydd

- 2.1 Mae stopio a chwilio'n ffordd bwysig i atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a'i ganfod. Mae stopio a chwilio wedi ei dargedu – gan gynnwys defnyddio cudd-wybodaeth i ganfod yn union ymhle mae'r rhai a gafwyd yn euog yn flaenorol o droseddau arfau yn gweithredu neu ymhle y cyflawnir y troseddau – yn elfen arwyddocaol o sut mae'r heddlu'n delio â throseddau â chyllyll.
- 2.2. Ar gyfer Cymru a Lloegr, mae ffigurau ar gyfer 2011-12 yn dangos i tua 9% o hyd at 1.2 miliwn o achosion chwilio a stopio gael eu harestio:

<https://www.gov.uk/government/publications/tables-for-police-powers-and-procedures-in-england-and-wales-201112>

Nid arestio serch hynny, yw'r unig fesurydd o effeithiolrwydd gwaith plismona ac nid yw effeithiolrwydd stopio a chwilio mor syml â'r gyfradd trosi stopio a chwilio i arestio.

C1. I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y defnydd o bŵer yr heddlu i stopio a chwilio'n effeithiol i atal a chanfod trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol?

- Cytuno'n gryf
- Tueddu i gytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Tueddu i anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Pam ydych chi'n dweud hynny?

**C2. Beth, yn eich barn chi, yw'r mathau o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol y gellir delio ag ef yn effeithiol trwy ddefnyddio pwerau stopio a chwilio?
Rhowch resymau os gwelwch yn dda.**

2.3 Er ei bod hi'n bosib mesur effeithiolrwydd stopio a chwilio trwy'r nifer sy'n cael eu harestio yn dilyn defnyddio'r pŵer, mae yna ddulliau eraill, anoddach i'w mesur efallai, i ganfod effeithiolrwydd stopio a chwilio. Er enghraifft, gall y gallu sydd gan yr heddlu o wneud gwaith stopio a chwilio atal pobl rhag troseddu, sy'n golygu bod gan y pŵer rinwedd ataliol. Gall ei ddefnydd wneud plismona'n fwy gweledol a chael effaith gadarnhaol ar yr ofn sydd gan bobl o ddiodef trosedd.

C.3. I ba raddau y byddech chi'n cytuno fod y gyfradd arestio yn dilyn digwyddiadau stopio a chwilio'n fesur defnyddiol o effeithiolrwydd y pŵer?

- Cytuno'n gryf
- Tueddu i gytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Tueddu i anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Pam ydych chi'n dweud hynny?

C4. Yn eich tyb chi, pa bethau eraill, ar wahân i'r nifer sy'n cael eu harestio o ganlyniad, dylid eu hystyried wrth asesu pa mor effeithiol yw pwerau stopio a chwilio? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Cadw cydbwysedd rhwng diogelu'r cyhoedd a rhyddid yr unigolyn

2.4 Fel a nodir yng nghyflwyniad y papur hwn, dan Adran 1 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE) ac Adran 23 o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971:

- Gall swyddog o'r heddlu stopio a chwilio unigolyn neu gerbyd am eitemau anghyfreithlon neu sydd wedi eu dwyn, gan gynnwys arfau peryglus.
- Gall swyddog gymryd eitem o'r fath a ddarganfyddir.
- Rhaid i swyddog gael rheswm digonol i fod ag amheuaeth y bydd yn canfod eitemau anghyfreithlon neu sydd wedi eu dwyn, cyn mynd ati i stopio a chwilio;
- Nid oes angen cael awdurdod gan uwch swyddog.

2.5 Cwblhaodd yr heddlu 1.1 miliwn o achosion stopio a chwilio dan y pwerau hyn yn 2011/12.

C5 I ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y pwerau 'gyda rheswm digonol' stopio a chwilio, a ddisgrifir yn y paragraffau uchod, yn cael eu defnyddio gan yr heddlu mewn modd sy'n cadw cydbwysedd rhwng diogelu'r cyhoedd a rhyddid yr unigolyn?

- Cytuno'n gryf
- Tueddu i gytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Tueddu i anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Pam ydych chi'n dweud hynny?

2.6 Fel a nodwyd yng nghyflwyniad y papur hwn, mae gan yr heddlu bŵer ychwanegol i stopio a chwilio y gellir ei ddefnyddio mewn amgylchiadau penodol. Mae Adran 60 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994:

- Yn weithredol pan dybia swyddog y gall digwyddiad o drais difrifol ddigwydd, neu fod teclyn neu arfau peryglus yn cael eu cario.
- Yn caniatáu i uwch swyddog awdurdodi pwerau stopio a chwilio ychwanegol mewn ardal ddynodedig am amser cyfyngedig hyd at 48 awr.
- Pan roddir awdurdod, gall swyddog o'r heddlu stopio a chwilio unigolyn neu gerbyd am declyn neu arfau peryglus a chymryd unrhyw eitemau o'r fath a ganfyddir.
- Pan roddir awdurdod, gall swyddog wneud unrhyw chwiliad y tybia sy'n briodol, os yw'n amau ai peidio fod yr unigolyn neu'r cerbyd yn cario arfau neu eitemau o'r fath.

2.7 Cwblhaodd yr heddlu 46,961 o achosion o stopio a chwilio dan y pŵer hwn yn 2011/12.

C6. I ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y pwerau 'heb reswm digonol' stopio a chwilio, a ddisgrifir yn y paragraffau uchod, yn cael eu defnyddio gan yr heddlu mewn modd sy'n cadw cydbwysedd rhwng diogelu'r cyhoedd a rhyddid yr unigolyn?

- Cytuno'n gryf
- Tueddu i gytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Tueddu i anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Biwrocratiaeth mewn plismona

2.8 Dylai bod gan swyddogion yr heddlu yr amser i ddelio â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar flaen y gad yn eu cymdogaeth. Nid yw'r Llywodraeth yn dymuno i swyddogion o'r heddlu dreulio oriau o'u diwrnod yn cwblhau ffurflenni, a rhaid i ni ymddiried mewn swyddogion i wneud penderfyniadau call ac i ddefnyddio eu disgresiwn. Ond rhaid cael cydbwysedd. Mae swyddogion yn defnyddio pwerau stopio a chwilio'n rheolaidd ac mae'n bwysig bod pobl sy'n gweithredu pwerau o'r fath ar ran y wladwriaeth yn medru bod yn hyderus yn eu hatebolrwydd ynglŷn â pham a sut y'u defnyddir.

2.9 Yn 2011 lleihaodd y Llywodraeth y fiwrocratiaeth ddiangen ynglŷn â digwyddiadau stopio a chwilio er mwyn rhyddhau amser y swyddogion. Y wybodaeth sy'n weddill sydd yn rhaid ei chofnodi ar gyfer pob digwyddiad stopio a chwilio yw fel a ganlyn:

- Ethnigrwydd
- Gwrthrych y chwiliad
- Rheswm dros chwilio
- Manylion y swyddog sy'n cynnal y gwaith stopio a chwilio
- Dyddiad
- Amser
- Lleoliad

2.10 Defnyddir y wybodaeth hon i fonitro ac i fod yn atebol yn gyhoeddus am y defnydd teg o'r pwerau.

C7. I ba raddau yr ydych yn cytuno ei bod hi'n dderbyniol bod yr heddlu yn ofynnol yn genedlaethol yn gorfod cofnodi'r wybodaeth a osodir uchod mewn perthynas â phob achos o stopio a chwilio?

- Cytuno'n gryf
- Tueddu i gytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Tueddu i anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Pam ydych chi'n dweud hynny?

2.11 Gall technoleg leihau'r amser a gymerir i gofnodi digwyddiad stopio a chwilio'n sylweddol. Er enghraifft, gall ffactorau fel dyddiad, amser a lleoliad gael eu cofnodi ar unwaith ar declyn llaw cofnodi.

C8. Yn eich tyb chi, a ddylai Llywodraeth sicrhau ei bod hi'n ofynnol i'r heddlu gofnodi digwyddiadau stopio a chofnodi mewn modd benodol (er enghraifft, defnyddio technoleg neilltuol) neu a yw lluoedd yr heddlu yn medru gwneud y penderfyniad hwn yn unigol? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Tegwch

2.12 Dylai pob swyddog ddefnyddio eu pwerau'n deg, yn agored ac yn dryloyw. Nid yw pŵer chwilio a stopio'n eithriad a rhaid i swyddogion ddangos parch at bobl sy'n gorfod cael eu chwilio a defnyddio'r pŵer yn deg.

C9. I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad canlynol: "Rwy'n hyderus bod yr heddlu'n defnyddio pwerau stopio a chwilio yn deg i atal a chanfod troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol."

- Cytuno'n gryf
- Tueddu i gytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Tueddu i anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Pam ydych chi'n dweud hynny?

C10. Beth fyddai'n rhoi mwy o hyder i chi ym mhwerau stopio a chwilio'r heddlu? Rhwch resymau os gwelwch yn dda.

2.13 Ym mhob digwyddiad stopio a chwilio, rhaid i'r swyddog (pan mae hi'n ymarferol gwneud hynny) egluro i'r unigolyn eu bod yn cael eu stopio er mwyn cael eu chwilio, y pŵer cyfreithiol sy'n cael ei ddefnyddio, ac i egluro'n glir beth yw'r rhesymau am y chwilio h.y. yr eitemau neu eitemau sy'n rhoi'r pŵer i chwilio.

C11. I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno fod yr angenrheidrwydd presennol i egluro'r rhesymau am stopio a chwilio yn gwneud y defnydd o'r pŵer yn fwy teg a thryloyw?

- Cytuno'n gryf
- Tueddu i gytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Tueddu i anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Pam ydych chi'n dweud hynny?

2.14 Mae Police.uk yn wefan sy'n cael ei chynnal gan y llywodraeth sy'n mapio troseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chanlyniadau troseddau i lefel stryd. Gall pobl ddefnyddio'r wybodaeth hon i ymgysylltu â'u tîm plismona cymdogaeth ac i sicrhau bod yr arweinwyr plismona lleol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau ¹ yn atebol.

C12. Cyn heddiw, a oeddech chi wedi clywed sôn am y wefan police.uk?

- Oeddwn. Rwyf wedi ymweld â'r wefan
- Oeddwn, ond nid ydw i wedi ymweld â'r wefan
- Nag oeddwn
- Ddim yn gwybod

¹ Yn ardal Llundain Maer Llundain.

C13. I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai police.uk gynnwys gwybodaeth ynglŷn â stopio a chwilio yn eich ardal chi?

- Cytuno'n gryf
- Tueddu i gytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Tueddu i anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Pam ydych chi'n dweud hynny?

2.15 Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael eu hethol gan y cyhoedd i sicrhau bod prif gwnstabiailid a lluoedd yn atebol. Maent yn sicrhau bod yr heddlu'n atebol i'r cymunedau a wasanaethir ganddynt, gan gynnwys eu defnydd o'r pwerau stopio a chwilio. Mae rhai ardaloedd lluoedd yr heddlu wedi rhoi trefniadau atebolwydd stopio a chwilio ar waith. Er enghraifft, sefydlwyd grwpiau cyfeirio annibynnol i archwilio ffurflenni stopio a chwilio ac i amlygu unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn ag unrhyw uwch swyddog a enwir.

C14. I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai cymunedau lleol fod ynghlwm yn uniongyrchol wrth benderfynu sut y mae'r heddlu'n defnyddio'u pwerau stopio a chwilio?

- Cytuno'n gryf
- Tueddu i gytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Tueddu i anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Pam ydych chi'n dweud hynny?

C15. Yn eich barn chi, sut gall cymunedau lleol fod ynghlwm yn uniongyrchol â phenderfyniadau yn ymwneud â phwerau stopio a chwilio? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

C16. A oes yna unrhyw safbwyntiau neu sylwadau eraill hoffech chi eu hychwanegu mewn perthynas â'r pwerau stopio a chwilio nad ydynt wedi eu cynnwys yn y cwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad hwn?

Amdanoch chi

Gwirfoddol yw'r manylion hyn a byddant yn cael eu trin fel data personol gan y Swyddfa Gartref yn unol â chanllawiau'r llywodraeth ar gadw gwybodaeth bersonol. Wrth gyflwyno'r wybodaeth rydych yn caniatáu i ni brosesu a defnyddio'r wybodaeth hon yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data 1998.

Beth yw eich rhyw? (ticiwch un)	
Benywaidd	<input type="checkbox"/>
Gwrywaidd	<input type="checkbox"/>
Faint yw eich oed? (ticiwch un)	
Dan 18	<input type="checkbox"/>
18 – 24	<input type="checkbox"/>
25 – 34	<input type="checkbox"/>
35 – 54	<input type="checkbox"/>
55 – 74	<input type="checkbox"/>
75 +	<input type="checkbox"/>
Ethnigrwydd	
Gwyn Prydeinig	<input type="checkbox"/>
Gwyn (arall)	<input type="checkbox"/>
Indiaidd	<input type="checkbox"/>
Pacistanaid	<input type="checkbox"/>
Gwyn Gwyddelig	<input type="checkbox"/>
Cymysg Du Caribiaidd	<input type="checkbox"/>
Affricanaidd Du	<input type="checkbox"/>
Bangladeshaid	<input type="checkbox"/>
Tsieiniaidd	<input type="checkbox"/>
Asiaidd arall	<input type="checkbox"/>
Du (arall)	<input type="checkbox"/>
Arall	<input type="checkbox"/>

Ticiwch un blwch o'r rhestr isod sy'n disgrifio orau lle rydych yn byw neu leoliad eich sefydliad.

Gogledd Ddwyrain Lloegr	<input type="checkbox"/>
Gogledd Orllewin Lloegr	<input type="checkbox"/>
De Ddwyrain Lloegr	<input type="checkbox"/>
Swydd Efrog a'r Humber	<input type="checkbox"/>
Gorllewin Canolbarth Lloegr	<input type="checkbox"/>
Dwyrain Canolbarth Lloegr	<input type="checkbox"/>
Dwyrain Lloegr	<input type="checkbox"/>
De Orllewin Lloegr	<input type="checkbox"/>
Llundain	<input type="checkbox"/>
Cymru	<input type="checkbox"/>
Yr Alban	<input type="checkbox"/>
Gogledd Iwerddon	<input type="checkbox"/>
Unrhyw le arall	<input type="checkbox"/>

Enw'r Cwmni neu Sefydliad (os yn berthnasol)

Ticiwch un blwch o'r rhestr isod sy'n disgrifio orau y sefydliad yr ydych yn gweithio iddo

Aelod o'r cyhoedd	<input type="checkbox"/>
Yr heddlu	<input type="checkbox"/>
Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau	<input type="checkbox"/>
Awdurdod Lleol	<input type="checkbox"/>
Landlord Cymdeithasol Cofrestredig	<input type="checkbox"/>
Gwasanaeth Gwirfoddol Cymunedol	<input type="checkbox"/>
Prawf	<input type="checkbox"/>
Rhan o'r adran Lywodraethol System Cyfiawnder Troseddol nad yw'n plismona	<input type="checkbox"/>
Llywodraeth leol/Cyngor lleol	<input type="checkbox"/>
Corff cyhoeddus anadrannol	<input type="checkbox"/>
Gwarchod Cymdogaeth	<input type="checkbox"/>
Partneriaeth Diogelwch Cymunedol	<input type="checkbox"/>
Arall: Nodwch	<input type="checkbox"/>

Rhowch deitl eich swydd

Os ydych yn ymateb ar ran sefydlaid neu grŵp diddordeb, faint o aelodau sydd gennych a sut cawsoch chi farn eich aelodau:

Nifer o aelodau

Cafwyd barn gan

